

## **Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn** **Swydd: Swyddog Ymgysylltu a Dysgu Cymunedol**

### **Cyflwyniad – Y Rôl**

Bydd y swydd ddwy flynedd hon yn annog ac yn cynyddu defnyddwyr Parc yr Esgob o bob oed i fwynhau a dysgu. Bydd yn dod â'r gymuned, y parc, hen Balas yr Esgob ac Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a'i chasgliadau at ei gilydd ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt.

Bydd yn datblygu rhwydwaith o ddefnyddwyr ar draws Sir Gaerfyrddin fydd yn cefnogi ac yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy'r safle. Bydd y rhwydwaith yn cynnwys aelodau o'r cymunedau lleol cyfagos ac ehangach yn cynnwys grwpiau, clybiau, cymdeithasau a grwpiau diddordeb, yn ogystal ag ysgolion a cholegau. Bydd y swydd yn datblygu cyfleoedd dysgu gydag ysgolion a dysgwyr yn y cartref i greu gweithgareddau i archwilio'r hyn sy'n gwneud Parc yr Esgob, Hen Balas yr Esgob a chasgliadau'r Amgueddfa'n arbennig.

Rhaid i'r dysgu a'r addysg ym Mharc yr Esgob a'r Amgueddfa hefyd ddarparu ffrwd incwm i helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r safle. Bydd y swydd yn rhan hanfodol o ddatblygu'r safle fel man dysgu ansawdd uchel a nodedig. Bydd yn helpu i ddatblygu strategaeth ddysgu a chreu amrywiol adnoddau dysgu i ymwelwyr â Pharc yr Esgob ynghyd â rhaglen gychwynnol o gyfleoedd a gweithgareddau dysgu. Bydd y rhain yn cynnwys amrywiol gyrsiau hyfforddi, gweithdai a phrofiadau dysgu'n tynnu ar hanes, diwylliant, casgliadau, garddwriaeth ac amgylchedd naturiol y safle, a gaiff eu cynllunio i gynhyrchu incwm i gefnogi rheolaeth a chynhaliaeth y safle. Bydd gweithio'n ddwyieithog yn hanfodol ar gyfer cynhyrchu adnoddau dysgu a chyflwyno cyfleoedd dysgu ffurfiol i ysgolion a cholegau yn Gymraeg a Saesneg.

### **Themâu Dysgu**

- **ymdeimlad o le.** Cyn balas Esgobion Tyddewi a fu'n ganolfan ar gyfer ysbrydolrwydd, celfyddydau a'r Gymraeg – ar gyfer ysbrydoli dyfodol newydd
- **parc drwy amser.** Gardd bleser breifat sy'n cael ei hadnewyddu i'w chynllun o'r 19eg ganrif – ar gyfer deall gorffennol newidiol a meithrin dyfodol dan arweiniad y gymuned
- **rhywbeth i gnoi cil drosto.** Yr ardd gegin furiog gydag atgofion o ddanteithion y gorffennol ar fwrdd yr Esgob – ar gyfer annog hunanddibyniaeth ac arloesi garddwriaethol
- **achub yr amgylchedd.** Gyda'i gilydd mae i'r Ddôl Fawr a Phwll yr Esgob arwyddocâd ecolegol arbennig - ar gyfer ymgysylltu ag ystyriaethau cynaladwyedd cyfoes
- **archwilio'r tirlun.** Cysylltiadau ffisegol a gweledol yn Nyffryn Tywi a thu hwnt – ar gyfer adeiladu cysylltiadau a rhwydweithiau rhwng llyfyrdd a phobl.

### **Gwybodaeth Gefndir**

#### **Ymddiriedolaeth a Phrosiect Drws i'r Dyffryn**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn fel sefydliad corfforedig elusennol yn 2016 i adfer a rheoli Parc yr Esgob, Abergwili, tiroedd hen Balas Esgobion Tyddewi sy'n adnabyddus am ei nodweddion diwylliannol, hanesyddol ac ecolegol ac sy'n agos at galonnau'r gymuned leol.

Gyda chyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Sir Gâr a Llywodraeth Cymru, ymhlith nifer o gyllidwyr eraill, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni Prosiect Drws i'r Dyffryn i adnewyddu'r parc a'r ardd hanesyddol a chreu cyfleusterau newydd i ymwelwyr gan gynnwys gofod dysgu. Fel rhan o'r prosiect hwn crëwyd rôl Swyddog Ymgysylltu a Dysgu Cymunedol gyda chefnogaeth NLHF, CCC, Cronfa Eglwysi Cymru a Chronfa Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa a Chymuned Abergwili.

## **Disgrifiad Swydd - Swyddog Ymgysylltu a Dysgu Cymunedol**

- Yn atebol i: Rheolwr Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn
- Man gwaith: Parc yr Esgob ac Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, Abergwili a gwaith swyddfa gartref.
- Contract: Llawn amser 37 awr yr wythnos, £24,000 y flwyddyn. Cytundeb cychwynnol o ddwy flynedd gan ddechrau ym mis Medi 2020.
- Yn rheoli: Gwirfoddolwyr
- Oriau: Oriau gwaith hyblyg, 5 diwrnod ym mhob 7 yn cynnwys Gwyliau Banc a phenwythnosau a pheth gwaith gyda'r nos gydag amser rhydd in lieu
- Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â'r 8 gŵyl banc/gyhoeddus cydnabyddedig
- Cyfnod Rhybudd: O leiaf 2 fis. Y cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf o 3 mis yw 1 wythnos.
- Geirda: Mae pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar dderbyn geirda boddhaol a gwiriad DBS.

**Prif Ddiben** – Gweithio'n rhan o dîm Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn, mewn partneriaeth gydag Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, gan weithio gyda'r gymuned leol i ddatblygu rhwydwaith cefnogol, a gydag eraill i ddatblygu, trefnu a chyflwyno rhaglen o weithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu gan dynnu ar hanes, diwylliant, casgliadau, garddwriaeth ac amgylchedd naturiol y safle, a gynllunnir i gynhyrchu incwm i helpu i gefnogi rheolaeth a chynhaliaeth y safle.

### **Prif Ddyletswyddau**

- 1) Cynorthwyo Rheolwr yr Ymddiriedolaeth i greu amgylchedd dysgu hygyrch a chyfeillgar lle caiff cyfleoedd dysgu eu hehangu er mwyn hyrwyddo cynhwysiad ac amrywiaeth.
- 2) Meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda grwpiau cymunedol lleol, ysgolion lleol a rhanddeiliaid lleol eraill.
- 3) Cynrychioli Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn mewn ysgolion lleol a digwyddiadau cymunedol a hyrwyddo Parc yr Esgob fel adnodd cymunedol a dysgu gwerthfawr i bawb.
- 4) Mewn ymgynghoriad â Rheolwr yr Ymddiriedolaeth, dyfeisio, trefnu a chyflwyno rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu a dysgu cymunedol i annog gwell ymwybyddiaeth a mwynhad cymunedol o Barc yr Esgob, ymgysylltu â'i adfywio a'i reolaeth barhaus a chefnogaeth i gynnaladwyedd Parc yr Esgob yn y dyfodol.
- 5) Gan weithio mewn partneriaeth gydag Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, datblygu a chreu adnoddau dysgu dwyieithog sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm Newydd a sicrhau eu bod ar gael ar y safle ac ar-lein i'w defnyddio gan ysgolion, colegau a grwpiau eraill o ddysgwyr ym Mharc yr Esgob a'r Amgueddfa.
- 6) Gan weithio gydag amrywiol bartneriaid, fel yr amgueddfa, ysgolion a cholegau, annog a chefnogi datblygiad cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol newydd ym Mharc yr Esgob.
- 7) Mewn ymgynghoriad â Rheolwr yr Ymddiriedolaeth, datblygu a chyflwyno rhaglen o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, yn fewnol a gydag arbenigwyr allanol, yn cynnwys dosbarthiadau a gweithdai i'w cynnal yn yr Amgueddfa ac ym Mharc yr Esgob, fydd yn cyfrannu'n sylweddol at ffrydiau incwm y safle.
- 8) Annog, recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r rhaglen ymgysylltu a dysgu cymunedol.
- 9) Cynorthwyo â chyrru grantiau a chyllid ar gyfer prosiectau cymunedol ac addysgol
- 10) Llunio adroddiadau a dogfennau priodol fel bo gofyn

- 11) Ymgymryd â dyletswyddau cysylltiedig eraill y gall y Rheolwr eu neilltuo, sy'n cyd-fynd â lefel cyfrifoldeb a chyflog y swydd.

## **MANYLEB YR UNIGOLYN**

Swyddog Ymgysylltu a Dysgu Cymunedol

HANFODOL	<u>DYMUNOL</u>
<b>HYFFORDDIANT, PROFIAD A CHYMWYSTERAU</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Addysg i lefel gradd neu gyfatebol</li> <li>• Profiad o gynllunio a chyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau mewn lleoliad amgylcheddol neu dreftadaeth, i bob oed a gallu, yn cynnwys i deuluoedd ac ysgolion</li> <li>• Gallu cyflwyno gweithdai neu sesiynau ansawdd uchel i blant ysgol yn seiliedig ar y Cwricwlwm Newydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymhwyster addysgu perthnasol</li> <li>• Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a'u rheoli</li> <li>• Profiad o weithio mewn amgylchedd masnachol</li> <li>• Profiad o weithio gyda dehongli, arddangosfeydd neu fewnosodiadau</li> <li>• Profiad o weithio gyda nifer o bartneriaid</li> </ul>
<b>GWYBODAETH A SGILIAU</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diddordeb a gwybodaeth am arddwriaeth, ecoleg neu'r amgylchedd hanesyddol</li> <li>• Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol yn Gymraeg a Saesneg sy'n ddigon da i gynhyrchu deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Gallu cynllunio a blaenoriaethu llwyth gwaith</li> <li>• Gallu gweithio'n unigol neu mewn tîm bach i gyflawni nodau cyffredin</li> <li>• Sgiliau trefnu a gweinyddu rhagorol</li> <li>• Sgiliau TG rhagorol yn cynnwys Microsoft Office, cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu digidol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth am y sector dysgu treftadaeth neu amgylcheddol ehangach</li> <li>• Gwybodaeth am gynnaladwyedd amgylcheddol</li> </ul>
<b>SGILIAU RHYNGBERSONOL</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol gyda gallu i gynnal arddull gefnogol wrth ymdrin â chydweithwyr, partneriaid, cymdogion, grwpiau cymunedol ac ymwelwyr ar bob lefel</li> <li>• Gallu meithrin a rheoli timau effeithiol ac ysbrydoli gwirfoddolwyr ac eraill</li> <li>• Gallu cryf i drefnu, ar gyfer rheoli eich blaenoriaethau, llwyth gwaith a'ch terfynau amser eich hun a phobl eraill</li> <li>• Gallu nodi anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant a choetsio effeithiol i fodloni'r safonau gofynnol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallu cyflwyno anerchiadau a darlithoedd priodol i'r cyfryngau a'r cyhoedd</li> <li>• Parodrwydd i rannu gwybodaeth a syniadau</li> </ul>